



Coleg y
Cymoedd

Swyddog Datblygu Dwyieithrwydd

Pecyn Recriwtio

Rôl Cymraeg hanfodol

Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y rôl hon. Dylech ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yma, yn ogystal ag arweiniad ar sut i wneud cais. Fodd bynnag, os oes unrhyw beth arall yr hoffech ei wybod, cysylltwch â ni i drefnu sgwrs.

Crynodeb O'r Swydd

Bydden ni wrth ein bodd ichi ddod i'n nabod ni a'r rôl y mae diddordeb gennych ynddi. Y pethau pwysig i gychwyn...



Teitl y Swydd

Swyddog Datblygu
Dwyieithrwydd



Oriau Gweithio

37 awr yr wythnos



Math o Swydd

Llawr amser, contract
cyfnod penodol (CCP)
31 Gorffennaf 2023



Eich Cyflog

£22,635 - £24,321



Dyddiad Cau

12 Awst 2022



Lleoliad

Campws Nantgarw
Efallai y bydd angen teithio ar draws
y campysau fel rhan o'r rôl hon



Pam Coleg y Cymoedd?

Amdanom Ni

Ffurfiwyd Coleg y Cymoedd yn 2013. Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn ac mae gennym gampysau yn Aberdâr, Nantgarw, Rhondda ac Ystrad Mynach.

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau Llawn Amser a Rhan Amser o gyrsiau Lefel Mynediad i rai Lefel Gradd mewn dros 15 o feysydd y cwricwlwm.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda thros 800 o gyflogwyr, mae tîm Gwasanaethau Busnes y Coleg yn cynnig amrediad eang o Brentisiaethau a pheccynnau Hyfforddiant Masnachol Pwrpasol.

Buddsoddodd y coleg yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar yn cynnwys adeilad Campws Nantgarw (campws gwerth £40 miliwn), campws Aberdâr (campws gwerth £22 miliwn), a Chyfleusterau heb eu hail ym maes Hyfforddi Gwaith Rheilffordd a Thrin Moduron.

Ein Datganiad Cenhadaeth

'Eich llwyddiant yn y dyfodol yw'n cenhadaeth'

Ein Gwerthoedd

- > Mae ein ffocws ar y dysgwyr.
- > Rydyn ni'n ymdrechu am berfformiad uchel.
- > Rydyn ni'n gwerthfawrogi pawb ac yn buddsoddi ynddyn nhw.
- > Rydyn ni'n ceisio gwelliant parhaus.
- > Rydyn ni'n uchelgeisiol, rydyn ni'n gwrando a chydweithredu.
- > Rydyn ni'n datblygu partneriaethau cadarn ac effeithiol.

Ein Gweledigaeth

I ddysgwyr, staff, busnes a chymunedau ein cydnabod yn goleg rhagorol.

Rydyn ni'n annog ein dysgwyr, staff a'n rhanddeiliaid allanol i anelu'n uchel ac i fod yn falch o gael dweud bod astudio yng Ngholeg y Cymoedd wedi helpu i ysbrydoli ein dysgwyr ac i drawsnewid eu bywydau.

Y Manteision

Cyflog



Rydyn ni'n ymfalchïo ein bod yn cynnig cyflog cystadleuol yn y sector addysg bellach.

Eich Iechyd



Efallai na fyddwch ei angen byth, ond does neb yn gwybod yr hyn sydd rownd y gornel. Rydyn ni'n cynnig Rhaglen Cymorth Cyflogai ynghyd â Darpariaeth gwych o ran Iechyd Galwedigaethol.

Cadw'n Ffit



Mae ffitrwydd corfforol a meddyliol yn bwysig, ac felly rydyn ni'n cynnig y defnydd o gampfa Nantgarw ac Ystrad Mynach am ddim yn ogystal â disgownt ar aelodaeth o gyfleusterau hamdden. Os nad ydych am ddefnyddio campfa, rydyn ni'n cynnig Cynllun Seiclo i'r Gwaith.

Eich Bywyd Cartref



Weithiau, mae pethau'n newid ac rydyn ni am gynorthwyo hynny. Rydyn ni'n cynnig cyfres lawn o bolisiau i gynorthwyo cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Hefyd, rydyn ni'n cynnig Talebau Gofal Plant er mwyn sicrhau bod eich plant bach yn cael gofal da.

Datblygiad



Mae eich datblygiad yn bwysig inni. Rydyn ni'n cynnig cyfleoedd rhagorol ar gyfer datblygiad gyrfaol a phersonol. Hefyd, rydyn ni'n cynnig dysgu am ddim ichi ar gyrsiau a ariennir gan y coleg a hyd yn oed y cyfle ichi ddysgu Cymraeg! Da iawn.

Y Tymor Hirach:



O gychwyn gyda ni, gallwn eich cofrestru ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cymryd Seibiant



Rydyn ni'n deall bod angen seibiant arnoch chi weithiau. Rydyn ni'n cynnig yr hawl i Wyliau Blynyddol hael. Hefyd, mae gennym faes parcio am ddim ar gyfer yr holl staff a chynllun rhannu ceir.

Swydd Ddisgrifiad

Swyddog Datblygu Dwyieithrwydd

I sefydlu cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yng Ngholeg y Cymoedd ac i greu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael, datblygu a chadw eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu hamser yn y coleg. Gallwn ystyried patrymau gweithio hyblyg gan gynnwys rhannu swydd, gweithio yn ystod y tymor ac oriau cywasgedig.

Dyletswyddau Allweddol

Cyffredinol

- Hyrwyddo a chyflenwi gweledigaeth, gwerthoedd ac arferion corfforaethol y Coleg.
- Hyrwyddo cynllun strategol y Coleg a'i werthoedd ac i arwain a gyrru newid a menter yn eu blaen.
- Ymfalchio yng Ngholeg y Cymoedd a chwarae rôl gweithredol yn yr hinsawdd "Un Coleg" sy'n ffocysu ar wneud y cymoedd yn gryfach drwy addysg, sgiliau a hyfforddiant ardderchog.
- Lansio 'cangen' Coleg y Cymoedd o'r y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dysgwyr

- Cydlynu prosiectau a ariennir gan Grant Hyrwyddo'r Gymraeg, yn cynnwys recriwtio a goruchwyllo Llysgenhadon Dysgwyr y Gymraeg.
- Cydweithio gyda Hyfforddwyr Addysgu a Dysgu i ddatblygu adnoddau ar gyfer dysgwyr ar gyfer delio ag ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, y dimensiwn a'r diwylliant Cymreig perthnasol i feysydd â blaenoriaeth i'w rannu drwy'r Hwb Tiwtorial
- Creu cyfleoedd anffurfiol er mwyn i ddysgwyr gaffael, datblygu a chadw ei sgiliau Cymraeg yn y coleg h.y. clybiau, teithiau ayb.
- Hyrwyddo adnoddau, rhwydweithiau ac ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ymhlith dysgwyr
- Gweithio yn nhîm Cymraeg y Coleg er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru a hawliau'r iaith Gymraeg ymhlith dysgwyr.
- Gweithio gyda phartneriaid allanol megis Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, Menter Iaith Caerffili a'r Urdd er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr i wirfoddoli ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Staff

- Gweithio gyda Rheolwr y Gymraeg er mwyn nodi cyfleoedd hyfforddi i staff a datblygu eu sgiliau Cymraeg
- Arwain ar hybu cynllun Gwreiddio y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer staff, gan sicrhau bod gwybodaeth am adnoddau, rhwydweithio a chyfleoedd hyfforddiant yn cael ei rhannu'n effeithiol.
- Mynychu cyfarfodydd a drefnir gan y Coleg Cymraeg, yn cynnwys paneli pwnc a gweithredu ar unrhyw bwyntiau gweithredu a allai godi.

Darpariaeth

- Gweithio gyda Rheolwr Y Gymraeg a Phenaethiaid Ysgol i gefnogi a chynorthwyo gwaith darlithwyr dwyieithog a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dyletswyddau Allweddol

- Cynrychioli tîm Cymraeg y Coleg mewn digwyddiadau agored
- Cydlynu i lunio astudiaethau achos sy'n cynnig enghreifftiau o arferion gorau y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gynigir a choladu unrhyw dystiolaeth arall sy'n amlygu llwyddiant prosiectau a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cymwysterau

- Gweithio gyda Gwasanaethau Arholiadau a Gwybodaeth Rheoli i fonitro'r ddarpariaeth asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg/ yn ddwyieithog
- Gweithredu fel man cyswllt ar gyfer ymholiadau am arholiadau ac asesiadau sydd ar gael drwy gyfrwng Gymraeg ac i riportio problemau i'r Coleg Cymraeg ac i Gymwysterau Cymru

Cyflogwyr

- Gweithio gyda thîm Dysgu Seiliedig ar Waith i nodi anghenion cyflogwyr lleol o ran y Gymraeg a recriwtio yn y meysydd â blaenoriaeth
- Datblygu a chynnal cysylltiadau gyda sefydliadau allanol, yn cynnwys cyflogwyr, allai gynnig lleoliadau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr.

Dyletswyddau Ychwanegol

- Gweithredu i gydymffurfio â Pholisi'r Coleg ar Gyfleoedd Cyfartal
- Cymryd rhan ym mhroses Rheoli ac Adolygu Perfformiad y Coleg ac i gyfrannu at y broses honno
- Bydd gan yr holl staff a gyflogir yng Ngholeg y Cymoedd gyfrifoldeb am ddiogelu a hyrwyddo llesiant y myfyrwyr.
- Bydd gan yr holl staff a gyflogir yng Ngholeg y Cymoedd gyfrifoldeb am ddiogelu a hyrwyddo llesiant y myfyrwyr.
- Ymgymryd â dyletswyddau sy'n rhesymol ofynnol gan y Coleg naill ai yn eich prif leoliad gwaith neu yn adeiladau eraill y Coleg, y dyletswyddau hynny sy'n gymesur â graddfa a chyfrifoldeb y swydd.

Gwybodaeth Bellach

Cydnabyddir y gall dyletswyddau a chyfrifoldebau pob swydd newid o bryd i'w gilydd a gellir diwygio disgrifiadau swydd mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd i adlewyrchu'r newidiadau hynny sy'n gymesur â'r rôl.

Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol	Asesiad
NVQ Lefel 3 neu 5 TGAU graddau A-C	✓		Ffurflen Gais
Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus	✓		Ffurflen Gais
Profiad o gynllunio, cydlynu a chyflenwi prosiectau	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Profiad o oruchwylio eraill		✓	Ffurflen Gais & Chyfweliad
Wedi dangos addasrwydd i weithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Y gallu i drefnu, cynllunio a blaenoriaethu gwaith	✓		Ffurflen Gais
Y gallu i gwrdd â dedleins a gweithio dan bwysau	✓		Ffurflen Gais
Y gallu i weithio fel rhan o dîm	✓		Ffurflen Gais
Tystiolaeth o lythrennedd cyfrifiadurol yn enwedig Microsoft Word, Access ac Excel.	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Yn gallu dysgu ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd a gofynion newydd	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Y gallu dal i weithredu'n effeithiol dan bwysau a throsi cyfleoedd yn gynlluniau gweithredu.	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Wedi ymrwymo I'r iaith Gymraeg ac yn hyrwyddwr datblygiadau dwyieithog	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Dull brwdfrydig o fynd ati i ddelio â sialens	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Yn arddangos agwedd broffesiynol diplomataidd a'r gallu i drin sefyllfaoedd anodd.	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Bod yn gydweithiwr dibynadwy sy'n ymwneud yn barchus, yn bwrpasol a chadarn â chymheiriaid a holl aelodau eraill o'r staff,	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Yn hyderus, brwd ac egniol	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Yn deall Cyfleoedd Cyfartal ac wedi ymrwymo i hynny	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Yn gallu gweithio ar ei ben/phen ei hun heb fawr o oruchwyliaeth	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad
Yn deall ymrwymiad y coleg i ddiogelu a hyrwyddo llesiant myfyrwyr	✓		Ffurflen Gais & Chyfweliad

'Rwy'n mwynhau fy rôl fel Swyddog Lles a Llesiant yn fawr, ac mae cysylltu â dysgwyr, a'u hwyluso i fod yr hyn maen nhw'n dymuno bod mor werth chweil. Yng ngeiriau'r gwych Carl Rogers, "Mae pobl fel planhigion, o gael yr amodau cywir byddant yn ffynnu" '

Carolyn Owen

Swyddog Llesiant a Lles

'Mae ymgysylltu â staff a dysgwyr a'u gweld yn datblygu i'w llawn botensial yn rhoi boddhad mawr. Mae'r rôl yn hyblyg ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Mae Coleg y Cymoedd yn lle gwych i weithio, lle rydyn ni i gyd yn cefnogi ein gilydd i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael profiad dysgu rhagorol.'

Tracey Evans

Pennaeth Ysgol (Arlwyo, Gwallt a Harddwch)

Sut I Wneud Cais (Proses Gwneud Cais)

Beth Nesaf?

Bellach, dylech chi wybod mwy amdanom ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Hefyd, dylai fod gennych chi ddealltwriaeth dda o'r rôl hon a'r math o berson rydyn ni'n chwilio amdanynt. Os ydy hyn yn swnio fel disgrifiad ohonoch chi, yna byddem wrth ein bodd pe baech yn gwneud cais.

Yn syml, lawrlwythwch y ffurflen gais a llenwch yr holl feysydd gofynnol

Lawrlwytho Ffurflen Gais

Anfon ceisiadau wedi'u cwblhau:

✉ jobs@cymoedd.ac.uk

Cofiwch ddefnyddio'r **Fanyleb Person a'r Swydd Ddisgrifiad** i ddangos i ni pam mai chi yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd

Unwaith y bydd y cais wedi'i lenwi a'ch bod chi'n hapus, dim ond un peth sydd ar ôl i'w wneud a dyna'i drosglwyddo i ni yn y cyfeiriad e-bost uchod - Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ei ddarllen!

Cofiwch, **nid ydym yn derbyn CV**. Os byddai'n well gennych, gallwch bob amser anfon eich cais wedi'i gwblhau at:

Pobl a Diwylliant
Coleg y Cymoedd
Campws y Rhondda
Tonypandy
CF40 2TQ

Eisiau Sgwrsio

Mae Coleg y Cymoedd yn lle unigryw a chyffrous i weithio. Efallai bod y rôl hon yn ffit perffaith i chi. Os hoffech chi sgwrsio trwy unrhyw gwestiynau neu ddod i'n hadnabod yn well, cysylltwch heddiw:

**Ceisiadau / Rhagor o
Wybodaeth:**

✉ jobs@cymoedd.ac.uk

☎ 01443 653626



INVESTORS IN PEOPLE®
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in people Gold

Rydym wedi llwyddo!
Achredwyd yn swyddogol gan Buddsoddwyr mewn Pobl.
Oherwydd rydym yn gwella gwaith.

We did it!
Officially accredited by Investors in People.
Because we make work better.

Telerau Ac Amodau

Cydraddoldeb Ac Amrywiaeth

Rydyn ni'n cydnabod manteision gweithlu amrywiol – rydyn ni'n ystyried ein hunain i fod yn gyflogwr o ddewis ac wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu yn y gweithle.

Euogfarnau Troseddol

Mae sefydliadau addysg yn y DU wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob ymgeisydd roi gwybod i'r coleg am unrhyw gollfarnau sydd wedi'u disbyddu ac sydd heb eu disbyddu ar eu ffurflen gais ac wrth lenwi ffurflen Datgelu a Gwahardd. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddiswyddo. Ceir gwiriad rhestr 99 hefyd ar gyfer unrhyw un a fydd yn gweithio gyda dysgwyr neu'n dod i gysylltiad â dysgwyr, a rhaid i'r coleg ei dderbyn cyn y gall y gyflogaeth ddechrau.

Diogelu Data

Bydd unrhyw ddata amdanoch yn cael ei gadw'n ddiogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n delio â'ch cais yn y broses dethol. Drwy lofnodi a chyflwyno'ch ffurflen gais, rydych yn caniatáu i'ch data gael ei brosesu.

Hawl i Weithio yn y DU

Mae Adran 8 Deddf Lloches a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gyflogi gweithiwr newydd y mae ei statws yn atal y gweithiwr rhag cael gwaith. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, gofynnir i chi gyflwyno tystiolaeth dogfennol wreiddiol a chyfredol o'ch hawl i weithio yn y DU.